Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwneud cwyn am waith Archwilio Cymru



# Sut i gwyno am waith Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru)

## Mae eich sylwadau'n bwysig

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl i'r rhai sy'n gwneud gwaith ar eu rhan, i wneud eu gwaith i'r safonau sy'n gymesur â'u cymwysterau a'u profiad. Yn achos uwch aelodau staff, fel cyfarwyddwyr a rheolwyr, neu, yn achos cwmnïau, partneriaid, y safon a ddisgwylir yw darparwr arbenigol gwasanaethau proffesiynol. Mae cwynion yn rhoi cyfle inni unioni pethau pan fydd camgymeriadau wedi'u gwneud a gwella ansawdd ein gwaith. Rydym yn cymryd cwynion o ddifrif, byddwn yn ymchwilio'n drylwyr ac yn onest iddynt, a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.



## Ynglŷn â’r daflen hon

2 Mae’r daflen hon (sydd hefyd ar gael yn Saesneg) yn egluro:

- swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol a swyddogaeth Swyddfa Archwilio Cymru;
- y cwynion y byddwn (ac na fyddwn) yn ymchwilio iddynt;
- sut i wneud cwyn;
- sut rydym yn ymdrin â chwynion; a
- phwy arall fydd yn gallu eich helpu chi.

3 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a’r cyrff a noddir ganddi a chyrff cysylltiedig, cyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG. Gelwir y rhain yn ‘sefydliadau’ yn y daflen hon. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith archwilio ariannol (archwilio cyfrifon) ac archwilio perfformiad, fel archwiliadau gwerth am arian, yn y sefydliadau hyn.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn fwrdd statudol sy’n darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac mae’n monitro ac yn cynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Gelwir yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, a’i staff, gyda’i gilydd yn “Archwilio Cymru”.

5 Mae pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol Archwilydd Cyffredinol wedi’u nodi yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a rhai darnau eraill o ddeddfwriaeth. Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio a Datganiad o Arfer (ar gyfer rhai swyddogaethau llywodraeth leol) sy’n pennu sut y dylai archwilwyr gynnal amrywiaeth eang o ddyletswyddau a phwerau’r Archwilydd Cyffredinol.

## Cwynion y byddwn (ac na fyddwn) yn ymchwilio iddynt

6 Byddwn fel arfer yn ymchwilio i'r holl gwynion sy'n ymwneud â:

- gwaith sy'n cael ei wneud gan staff neu gontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru lle mae'r gŵyn yn cael ei derbyn pan fydd y gwaith yn dal i fynd rhagddo, er enghraifft, ynghylch a yw'r prosesau sy'n cael eu dilyn yn rhesymol;
- ymddygiad staff a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru; a
- gwasanaethau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio
- Cymru, fel cynadleddau a digwyddiadau

7 Ni fyddwn yn ymchwilio i gwynion a godir dros chwe mis ar ôl i'r mater y gwnaed cwyn amdano ddigwydd. Fodd bynnag, os gallwch ddangos nad oeddech yn ymwybodol o'r mater y gwnaed cwyn amdano yn ystod y cyfnod hwn a bod rhesymau a pam nad oeddech yn ymwybodol, o dan amgylchiadau eithriadol efallai y byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn.

8 Ni fyddwn fel arfer yn ymchwilio i faterion a godwyd a ddylai gael eu hadolygu gan y llysoedd yn unig, fel sut mae swyddogaethau statudol wedi'u harfer mewn perthynas â gwaith sydd wedi'i gwblhau a'r penderfyniadau a wnaed, a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, wrth arfer swyddogaethau statudol. Mae fel arfer yn amhriodol i ni ymchwilio i faterion o'r fath oherwydd ni allwn, yn ôl-weithredol, newid canlyniad arfer swyddogaethau statudol, ac felly ni fyddai ymchwiliadau fel arfer yn ddefnydd da o arian cyhoeddus.

9 Dyma enghreifftiau o faterion na fyddwn yn ymchwilio iddynt fel arfer:

- cynnwys sylweddol, ac yn enwedig canfyddiadau a chasgliadau, unrhyw adroddiadau neu farn archwilio cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol; a
- phenderfyniadau a wnaed wrth baratoi adroddiadau neu farn archwilio gyhoeddedig, a'r prosesau a ddefnyddiwyd.

10 Ni fyddwn yn ymchwilio i benderfyniadau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (ee Rhyddid Gwybodaeth) yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y daflen hon, oherwydd bod gweithdrefnau eraill yn gymwys. Os yw eich cwyn yn ymwneud â chais Rhyddid Gwybodaeth, ac eich bod am gael adolygiad, fe ddylech gysylltu â'r Swyddog Gwybodaeth yn 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ (neu e-bostio swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

11 Byddwn yn ymchwilio i gwynion ynglŷn â'r ffordd y caiff eich data personol ei drin o dan y gweithdrefnau a nodir yn y daflen hon. Os oes gennych gŵyn am sut yr ydym wedi prosesu eich data personol, dylech gysylltu â Rheolwr Cwynion Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ym mharagraff 19 o'r daflen hon.

## Cwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg

12 Mae gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ill dau gydymffurfio â rhai Safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a nodir mewn Hysbysiadau Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau penodol wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn delio â chwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg perthnasol a phenodol yn unol â'r daflen hon.

13 Mae tri math o Safonau gwahanol yn ymwneud â'r Gymraeg a nodir yn berthnasol:

- safonau cyflenwi gwasanaeth – sydd yn berthnasol, er enghraifft, i gynhyrchu dogfennau ar gyfer defnydd cyhoeddus, megis adroddiadau archwilio;
- safonau gweithredu – er enghraifft, o ran y modd o drin ceisiadau am swyddi;
- safonau creu polisi – er enghraifft, o ran yr ystyriaeth a roddir i effeithiau polisi newydd arfaethedig, megis polisi cyfryngau cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

14 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu deunydd hyfforddiant ar ei mewnrwyd er mwyn sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i ddelio ag unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys, yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y daflen hon. Bydd y deunydd yn cynnwys ymdriniaeth o'r angen i gadw cofnod o bob cwyn, i lywio proses flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o ran adrodd ar y Gymraeg.

15 Os yw'ch cwyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, yna cysylltwch â'n Swyddog Iaith Gymraeg yn 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ (neu ffoniwch 02920 320 500).

# Cwynion am sefydliadau a archwiliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol

16 Ni fyddwn yn ymchwilio i gwynion am y polisïau a'r penderfyniadau a wnaed gan sefydliadau a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, na'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliadau hyn. Dylech gyfeirio'r cwynion hyn at y sefydliad ei hun, oherwydd dylai fod ganddo ei weithdrefn gwynion ei hun. Fodd bynnag, os oes gennych gŵyn am sefydliad a allai lywio ein gwaith, er enghraifft cwyn sy'n ymwneud â chamddefnyddio arian cyhoeddus, byddwn yn ei hystyried i'r graddau ei bod yn berthnasol i'n gwaith. Yn gyffredinol, ni allwn ddarparu adborth ar ystyriaethau o'r fath. Fel rhan o'r archwiliad o gyrff llywodraeth leol efallai y gallwn ateb rhai cwestiynau penodol a byddwn yn rhoi rhesymau dros beidio â cheisio datganiad llys, lle bo hynny'n berthnasol, mewn ymateb i wrthwynebiadau a wnaed yn briodol yn yr archwiliad. Ceir canllawiau ar ysgrifennu atom am faterion a allai lywio ein gwaith ar wefan Archwilio Cymru.

## Ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru: Canllaw i ohebwyr

17 Yn gyffredinol, ni allwn ymchwilio i achosion o sefydliadau yn ymdrin â phobl mewn ffordd wael sy'n achosi caledi neu anghyfiawnder (a elwir yn 'gamweinyddu'). Dylech gyfeirio'r cwynion hyn at sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dyma fanylion cyswllt yr Ombwdsmon:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

www.ombwdsmon.cymru

# Sut i wneud cwyn

18 Os nad ydych yn fodlon ar waith staff Swyddfa Archwilio Cymru neu eraill sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, dylech yn gyntaf roi'r cyfle i'r aelod perthnasol o staff ymdrin â hyn.

19 Os nad ydych yn siŵr â phwy i gysylltu, neu os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn gan yr aelod perthnasol o staff, cysylltwch â'r Rheolwr Cwynion fel a ganlyn.

E-bost: cwynion@archwilio.cymru

Ysgrifennwch at:

Rheolwr Cwynion Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Gwefan: www.archwilio.cymru

20 Dylech wneud unrhyw gŵyn yn ysgrifenedig. Mae cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig yn helpu i roi eglurder o ran y materion penodol rydych yn pryderu amdanynt. Os yw ysgrifennu yn achosi problemau i chi, gwelwch ein Polisi addasiadau rhesymol. Wrth ysgrifennu atom, dywedwch wrthym beth yw eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac fe wnawn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



## Ein hymrwymiad i ddelio â chwynion

21 Pan fyddwn yn ymdrin â chwynion byddwn yn gwrtais, yn gymwynasgar, yn gadarnhaol ac yn deg i'r person sy'n cwyno a'r person (neu'r bobl) y gwneir cwyn amdano/amdanynt.

22 Byddwn yn cydnabod eich cwyn o fewn pum diwrnod i'w chael. Os na fyddwn yn ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam. Os yw'n bosibl, byddwn yn awgrymu sefydliad arall a all eich helpu.

23 Os byddwn yn ymchwilio i'ch cwyn, byddwn yn cysylltu â chi i esbonio pwy fydd yn ymdrin â'r gŵyn (swyddog ymchwilio) a phryd i ddisgwyl ateb. Byddwn yn ystyried cwynion yn ofalus ac, os yw'r mater yn syml, byddwn yn ceisio ateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Os bydd angen i ni gynnal ymchwiliad manylach efallai y bydd angen i ni gymryd mwy o amser, ac os felly byddwn yn ceisio rhoi'r diweddaraf i chi.

24 Bydd y swyddog ymchwilio yn rhoi ymateb o sylwedd i'ch cwyn i chi.

25 Byddwn yn trin pob cwyn yn gyfrinachol, i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, fel arfer bydd yn angenrheidiol hysbysu'r rheiny rydych yn cwyno amdanynt ynghylch natur eich cwyn, ac yn aml mae eich hunaniaeth yn debygol o fod yn amlwg o'r cyd-destun hyd yn oed pe bai eich cwyn yn ddienw. Yn ogystal, efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yn eich cwyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol eraill, fel o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd yn angenrheidiol datgelu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn ceisio eich hysbysu ymlaen llaw. Dylech nodi, fodd bynnag, nad yw datgelu yn unol â rhai rhwymedigaethau cyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol cael eich caniatâd, ac, os bydd datgelu o'r fath yn angenrheidiol, nid yw'r datgelu yn torri'r Ddeddf Diogelu Data.

26 Yn dilyn yr ymateb, os nad ydych yn fodlon bod y swyddog ymchwilio wedi ymdrin â'ch cwyn yn briodol, dylech gysylltu â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru yn:

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

27 Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu adolygu'r modd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, gan berson annibynnol os yw'n briodol, ar yr amod eich bod yn rhoi rhesymau da i ddangos pam rydych yn credu nad yw'r swyddog ymchwilio wedi ymdrin â'ch cwyn yn briodol. Oni bai bod diffyg sylweddol wrth ymdrin â'ch cwyn yn wreiddiol, ni fydd y gŵyn ei hun yn cael ei hailystyried. Bydd y person annibynnol yn argymell camau gweithredu priodol i'r Archwilydd Cyffredinol ac yn anfon manylion atoch. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn mai dyma gam terfynol y broses gwyno.

28 Os byddwch yn darparu gwybodaeth newydd nad oedd ar gael yn flaenorol ac na allai fod wedi bod ar gael yn rhesymol, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn ystyried y wybodaeth hon ac yn cymryd camau gweithredu priodol. Fodd bynnag, ni fydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn rhan o ohebiaeth barhaus gyda chi os byddwch yn ei hanfod yn ailadrodd yr un gŵyn. Ni fyddwn yn ymateb i gwynion nad ydynt yn rhai diffuant neu sy'n faleisus, neu sy'n camddefnyddio'r broses gwyno.



Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.